# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Ebrill 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu clystyrau gweithgynhyrchu yng Nghymru. (WAQ55794)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru'r clystyrau gweithgynhyrchu sydd yng Nghymru; ynghyd ag unrhyw glystyrau trawsffiniol sy'n cynnwys unedau gweithgynhyrchu yng Nghymru. (WAQ55795)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Mae tri chlwstwr gweithgynhyrchu ar hyn o bryd - Moduro, Awyrofod ac Offer Electronig. Mae'r clystyrau hyn yn gwbl gysylltiedig â chlystyrau ehangach y DU ac yn cael budd o hynny.

## *Gofyn i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff cynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad roi manylion costau ailwampio siop coffi staff Tŷ Hywel, gan ddadansoddi'r gwariant yn ôl peiriannau, costau prynu ac ailwampio cyffredinol. (WAQ55796)

***Rhoddwyd ateb ar 31 Mawrth 2010***

**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy:** Roedd ailwampio siop goffi Tŷ Hywel yn rhan o raglen dreigl yr adran Cyfleusterau ac Ystadau i wella a chynnal a chadw'r adeilad. Roedd ôl defnydd ar y llawr a'r gosodiadau ar ôl un mlynedd ar ddeg o ddefnydd parhaus. Yn ogystal, nid oedd cynllun y siop a'r silffoedd sefydlog yn gwneud y defnydd gorau o'r gwagle a oedd ar gael, ac roedd oergell wedi'i gosod o flaen ffenestr a rheiddiadur. Mae'r cynllun a'r dodrefn sefydlog newydd yn creu gwagle sy'n fwy defnyddiol, ac arwynebau gweithio sy'n gadarn, yn wydn ac yn hawdd i'w glanhau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal amgylchedd gwasanaeth bwyd hylan. Bydd yr ailwampio hwn yn golygu cyfleusterau gwell, hir-oes, i gwsmeriaid.
Roedd y peiriant coffi hefyd bron a chyrraedd diwedd ei oes, ac roedd costau cynyddol o drwsio'r peiriant yn ei wneud yn aneconomaidd. Roedd cyfanswm y gost o drwsio'r peiriant dros y tair blynedd diwethaf yn £4,000. Prynwyd peiriant coffi newydd yn ei le i ateb y defnydd uchel a wneir o'r peiriant ac i ddarparu gwasanaeth dibynadwy i gwsmeriaid yn ogystal â lleihau'r costau uchel o gynnal a chadw'r peiriant yn flynyddol.
Mae'r tabl isod yn dangos trawsdoriad o'r gwariant i ailwampio'r siop goffi:

| **Eitem** | **Cost (£)** |
|---|---|
| Unedau | 1,379 |
| Arwynebau gweithio gwenithfaen | 4,176 |
| Gosodiadau a silffoedd | 637 |
| Llawr | 2,000 |
| Gosod Altro Whiterock ar y wal gefn | 1,316 |
| Costau llafur o addurno a gosod yr offer, yr unedau a'r silffoedd | 1,500 |
| **Cyfanswm cost yr ailwampio** | **10,998** |
| Peiriant coffi | 9,145 |
| **Cyfanswm cost yr ailwampio gan gynnwys peiriant newydd** | **20,153** |